

GWANWYN 2015

BANGORIAD

Cylchgrawn Alumni Prifysgol Bangor

ANTURIAETHAU'R ANTARCTIG

CYN-FYFYRIWR A CHYMRAWD
ANRHYDEDDUS, YR ATHRO DONAL
MANAHAN YN RHANNU STRAEON AM EI
DEITHIAU I'R ANTARCTIG AC AM EI GARIAD
TUAG AT FANGOR



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

PEIDIWCH AG EDRYCH YN ÔL AR FANGOR...

EDRYCHWCH YMLAEN

AT AILDDARGANFOD BANGOR FEL
MYFYRIWR ÔL-RADD



- Ymysg yr 50 o brifysgolion gorau'r DU
- Yn y 40 uchaf am ymchwil
- Mae dros hanner ein hysgolion academiaidd yn yr 20 uchaf yn y DU am ansawdd ac ymchwil
- Gostyngiad mewn ffioedd dysgu i gyn-fyfyrrwyr Bangor ac aelodau agos o'r teulu

**AM RAGOR O WYBODAETH
EWCH I:**

**www.bangor.ac.uk/postgrad
neu cysylltwch â**

**m.rogeron@bangor.ac.uk
+44 (0) 1248 383 648**

Helo o Brifysgol Bangor!

Croeso i rifyn 2015 y Bangoriad. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni ac mae'n bleser gennym rannu ein storïau efo chi. Yn y rhifyn diweddaraf yma rydym yn edrych yn ôl ar yr aduniadau niferus sydd wedi eu cynnal, yma yng ngwledydd Prydain ac o amgylch y byd. Mae'n bleser gennym hefyd rannu llwyddiannau ein Grŵp 2020 efo chi a chyflwyno ein Bwrdd Datblygu newydd, a fydd o gymorth mawr i helpu'r Brifysgol i godi arian.



Amgaeir hefyd gopi o'r Gofrestr Rhoddwyr eleni. Mae hon yn cydnabod y gefnogaeth ariannol y mae unigolion a sefydliadau'n ei rhoi ar gyfer ystod eang o weithgareddau'r brifysgol, yn cynnwys ysgoloriaethau, datblygiadau cyfalaf a rhaglenni academiaidd. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich haelioni. Mae'n ein galluogi i gyflawni cymaint o bethau na fyddem yn gallu eu gwneud fel arall o fewn ein cyllideb. Darllenwch yr erthygl ar Gronfa Bangor ar dudalen 12 a 13 sy'n rhoi sylw i rai o'r derbynwyr teilwng.

Rwy'n gobeithio y mwynhewch ddarllen rhifyn eleni o'r Bangoriad. A fydddech cystal ag anfon unrhyw sylwadau, a syniadau am eitemau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys mewn rhifynnau yn y dyfodol, i'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni drwy'r manylion cyswllt isod. Cofiwch gadw mewn cysylltiad.

Dymuniadau gorau,

Sheila O'Neal

Cyfarwyddwr Datblygu

- 4 Gair gan yr Is-Ganghellor Bwrdd Datblygu wedi'i ffurfio
- 5 Boddhad Myfyrwyr
- 6 Stori Clawr- Yr Athro Donal Manahan
- 8 Canolfan Chwaraeon Newydd ar Agor
- 9 Coleg Tseina Bangor Yn Agor Safle Newydd Santes Fair
- 10 Ymchwil Newid Byd
- 12 Y Cronfa Bangor
- 16 Aduniadau a Ddigwyddiadau
- 18 Proffiliau Alumni

Cydnabyddiaethau: Cyhoeddiad yw hwn ar gyfer cyn-fyfrwyr, staff a chyfeillion Prifysgol Bangor. Hyd eithaf ein gwytodaeth, roedd yr erthyglau sydd wedi'u hargraffu yma yn gywir adeg mynd i'r wasg. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn o anghenraid yn rhai Prifysgol Bangor na'r Golygydd. Am ganiatâd i atgynhychu unrhyw erthygl, cysylltwch â'r Golygydd.

Gwarchod Data: [Data Protection] Gwarchod Data: Cedwir data am alumni yn ddiogel a chyfrinachol yng nghronfa ddata Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni y Brifysgol i ddibenion hybu cysylltiadau agosach rhwng Prifysgol Bangor a'i chyn-fyfrwyr. Mae'r data ar gael i adrannau academiaidd a gweinyddol y Brifysgol, yn ogystal â chymdeithasau cydnabyddedig y Brifysgol, i'r diben o hyrwyddo cysylltiadau agosach ag alumni. Am fanylion llawn ewch i: www.bangor.ac.uk/alumni

© Prifysgol Bangor 2015

Bangoriad Ar-lein

Helpwch ni i arbed costau ac yr amgylchedd drwy ddewis derbyn y Bangoriad ar-lein yn unig. Os ydych yn fodlon derbyn y Bangoriad drwy e-bost o hyn ymlaen, ewch i: www.bangor.ac.uk/alumni



Cadwch mewn cysylltiad ar-lein!

Bangor University Alumni Prifysgol Bangor

Bangor University Alumni (Graduates) Group

Bangor University ALUMNI

SWYDDFA DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI

Rydym yma i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch gilydd a chyda'r Brifysgol.

Ewch i'n gwefan i gael manylion am ddigwyddiadau, y gwasanaethau a'r manteision rydym yn eu cynnig, ac i gael gwybod mwy am ein gweithgareddau codi arian. Hefyd gellwch ddarllen hanesion rhai alumni a chael manylion am sut y gellwch chi gymryd rhan. Mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r wefan neu drwy anfon e-bost atom.

alumni@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/alumni

Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG, DU

Ffôn Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni: +44 (0)1248 388332 / 382020

Prif ffôn y Brifysgol: +44 (0)1248 351151

Sheila O'Neal:
Cyfarwyddwr Datblygu

Emma Marshall:
Cyfarwyddwr Cronfa Bangor

Bethan Perkins:
Swyddog Datblygu Alumni a Golygydd y Bangoriad

Anna Macdonald:
Swyddog Datblygu Alumni a Golygydd y Bangoriad

Ffeindiwch Ffrind:

Anfonwch fanylion drwy e-bost am y rhai rydych wedi colli cysylltiad â nhw at alumni@bangor.ac.uk ac fe wnawn ni chwilio ein cronfa ddata i ceisio eich rhoi'n ôl mewn cysylltiad â nhw.



Gan Yr Is-Ganghellor

Bu 2014 yn flwyddyn ragorol i Brifysgol Bangor ac rwy'n falch o rannu'r llwyddiannau hyn efo chi. Mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi fod Bangor wedi dod i'r safle uchaf yng Nghymru ac yn seithfed drwy Brydain am Foddhad Myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a gynhaliwyd eleni. Dyma un o'n llwyddiannau pwysicaf eleni, gan fod yr arolygon hyn wedi'u seilio'n llwyr ar brofiad a barn ein beirniaid pwysicaf - ein myfyrwyr. Mae'n bleser, felly, gen i rannu'r newyddion hyn efo chi ac rwy'n siŵr y cytunwch ei fod yn dangos sut mae ein hymrwymiad i addysgu a dysgu, yn ogystal â'r profiad a gaiff myfyrwyr, yn gwneud Bangor yn un o'r llefydd gorau i astudio ynddo ym Mhrydain.

Yn ystod y llynedd hefyd agorwyd ein canolfan chwaraeon newydd, Canolfan Brailsford, a agorwyd gan hyfforddwr tîm beicio Prydain, Syr Dave Brailsford (tudalen 8). Mae'r ganolfan chwaraeon hon, sy'n cynnwys y cyfleusterau diweddaraf, yn enghraifft arall o'r ffordd rydym yn rhoi lle cwbl flaenllaw i anghenion ein myfyrwyr yn ein cynlluniau ar gyfer cymuned brifysgol sy'n tyfu'n gynyddol. Mae hyn yn rhan o'n gwaith llawer ehangach o ailddatblygu'r campws, sy'n cynnwys safle newydd Pontio ac ailddatblygu safle'r Santes Fair, a fydd yn agor fis Medi eleni.

Mae statws rhyngwladol Prifysgol Bangor wedi cael ei gryfhau hefyd drwy sefydlu Coleg newydd Bangor yn Tsiena, yn ninas Changsha (tudalen 9). Hwn yw'r cynllun ar y cyd cyntaf rhwng Cymru a Tsiena i sefydlu Coleg newydd

yn Tsiena, a bydd yn rhoi profiad addysg uwch o ansawdd uchel iawn i'r myfyrwyr, tebyg i'r un y byddent yn ei gael yma ym Mangor. Rydym eisoes wedi cael mewnlfif cyntaf llwyddiannus o fyfyrwyr ac rydym yn gobeithio y bydd Coleg Bangor yn Tsiena yn parhau i gefnogi ein hen da'n rhyngwladol.

Rwyf hefyd yn hynod falch o gyflwyno i chi'r Athro Donal Manahan; alumnus, Cymrawd er Anrhydedd a chyfaill i'r Brifysgol. Mae'r Athro Manahan yn siarad am ei gyfnod yma ym Mangor a sut y gwnaeth siapio ei fywyd a'i yrfa, yn cynnwys ei deithiau astudio i'r Antarctig a'i waith presennol ym Mhrifysgol De California (tudalen 6 a 7).

Fel arfer rydym yn diolch i chi am barhau i ddangos diddordeb ym Mangor ac rydym yn



gobeithio eich bod yn teimlo'n falch o fod yn un o'n 88,000 o alumni ar hyd a lled y byd ac yn llysgenhadon i'r Brifysgol. Rydym yn gobeithio y byddwch yn dal i gadw mewn cysylltiad.

Yr Athro John G Hughes
Is-Ganghellor

Bwrdd Datblygu Prifysgol Bangor

Mae Bwrdd Datblygu newydd Prifysgol Bangor, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Mervyn Davies CBE, wedi cael ei sefydlu i oruchwylio ac arwain rhaglen codi arian y Brifysgol.

Bydd y Bwrdd Datblygu yn datblygu ac yn llywio strategaeth codi arian y Brifysgol a chynorthwyo gyda'i gweithredu. Bydd y Bwrdd yn cynghori ar fentrau codi arian ac yn helpu i nodi gwirfoddolwyr posibl a chefnogi datblygiad eu sgiliau a'u gwybodaeth. Byddant hefyd yn gweithio i drefnu digwyddiadau a chyfleoedd codi arian eraill ac i argymhell cydnabyddiaeth briodol i roddwyr. Bydd y Bwrdd yn llysgenhadon i Brifysgol Bangor a'i rhaglen codi arian drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o godi arian ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned ac ennyn eu diddordeb yn hynny.

Mae'r Arglwydd Davies o Abersoch CBE wedi rhoi'r gorau i'w swyddogaeth fel Cadeirydd Cyngor y Brifysgol i fod yn rhan o'r Bwrdd Datblygu. Mae'n un o fancwyr mwyaf blaenllaw'r byd ac yn Bartner ac Is-Gadeirydd *Corsair Capital* ar hyn o bryd. Ganwyd ef yng Ngogledd Cymru, a chafodd ei addysg yn Ysgol Rydal ac Ysgol Busnes Harvard, ac mae ganddo gefndir bancio eang yn y DU, UDA ac Asia.

Mae aelodau eraill yn cynnwys Is-Ganghellor y Brifysgol, yr Athro John Hughes a Chyfarwyddwr Datblygu, Sheila O'Neal, ac:

- **Ann Beynon** – Comisiynydd Cymru i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a Chyfarwyddwr BT Cymru. Mae Ann yn gyn-fyfyriwr ac yn Gymrawd er Anrhydedd Prifysgol Bangor.
- **Andrea Gwilliam** – Cyfarwyddwr Ymgynghorol Cysylltiadau Mewnol yn *News International*.
- **Gwen M Jones** – Swyddog Gweithredol Cwmni Olew a Rheolwr Cyffredinol Llongau Masnachol *Shell Tankers (UK) Ltd*.

- **Marian W Jones** – Cyfarwyddwr Canolfan Gerdd William Mathias, Is Lywydd Eisteddfod Gerdd Ryngwladol Llangollen ac aelod o Bwyllgor Gogledd Cymru y Sefydliad Materion Cymreig. Mae Marian hefyd yn aelod o Gyngor y Brifysgol.
- **Malcolm Le May** – Cadeirydd *Juno Capital* a Chyfarwyddwr Anweithredol *Royal Sun Alliance plc* a *Pendragon plc*. Mae Malcolm hefyd yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Bangor.
- **David M Roberts** – Cyn Gofrestrydd y Brifysgol ac aelod o Fwrdd Gyrfa Cymru.
- **Edward Speed** – Cadeirydd bwrdd byd-eang *Spencer Stuart*.
- **David W Williams** – Cyn Gyfarwyddwr Rhanbarth i Fanc HSBC yng Ngogledd Cymru, a Thrysorydd a Dirprwy Gadeirydd Cyngor Prifysgol Bangor.

“

BODDHAD MYFYRWYR YN UWCH NAG ERIOED

Byddwch yn hynod falch o ddeall bod Prifysgol Bangor wedi dod i'r brig yng Nghymru, yn ôl y dull diweddaraf o fesur boddhad myfyrwyr, ac mae yn y 10 uchaf o brifysgolion traddodiadol yn y DU, sy'n cynnig ystod eang o bynciau.

Daw'r canlyniadau o'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, sef arolwg o oddeutu hanner miliwn o fyfyrwyr sy'n graddio o bob prifysgol yn y DU. Mae canlyniadau'r arolwg yn hynod bwysig i ni yn y brifysgol, gan eu bod yn rhoi'r adborth mwyaf cynhwysfawr i ni ar brofiad myfyrwyr ym Mangor, a'n galluogi i wella'r meysydd hynny lle gwelir bod gwendidau ynddynt.

Meddai'r Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysgu a Dysgu ac arweinydd y tîm mewnol a fu'n gweithio ar yr arolwg:

"Mae gan Brifysgol Bangor draddodiad sy'n ymestyn dros 130 o flynyddoedd o ddarparu addysg a gofal rhagorol i fyfyrwyr a chaiff hyn ei gadarnhau gan y canlyniadau gwych hyn. Rydym yn arbennig o falch bod yr arolwg yn ein gosod mor amlwg ar y brig yng Nghymru. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno mentrau i roi llais cryfach i fyfyrwyr yn y brifysgol ac mae llwyddiant ein dull o weithredu wedi'i adlewyrchu yn y canlyniadau hyn."

Yn ogystal â bod ar frig y tabl cyffredinol yng Nghymru, fe wnaeth ein cyn-fyfyrwyr diweddaraf roi'r sgôr uchaf i Fangor ym mron pob un o'r is-gategoriâu hollbwysig, fel ansawdd yr addysgu ar eu cyrsiau, asesu ac adborth, cefnogaeth academaidd

a threfniadaeth a rheolaeth y cyrsiau. Ychwanegodd yr Athro Turnbull: "Dylai'r data roi gwybodaeth werthfawr i ddarpar fyfyrwyr a'n hysbrydoli i wneud hyd yn oed yn well yn ystod y flwyddyn i ddod."

"Mae'r canlyniadau hyn yn gadarnhad arbennig o'n gweithgareddau a'n gwerthoedd. Wrth gymharu ein prifysgol gyda phrifysgolion eraill sy'n dysgu ystod eang o bynciau addysg uwch, mae'n wych ein bod yn y 10 uchaf yn y DU, ac o ran boddhad cyffredinol rydym yn awr ar yr un lefel â phrifysgolion traddodiadol eraill fel Glasgow, Durham ac yn wir Rhydychen a Chaergrawnt hefyd. Mae'n safle sydd unwaith eto yn adlewyrchu'r safon addysgu ragorol sydd ar gael ym Mangor."

Erbyn hyn mae Prifysgol Bangor yn gydradd 7fed ymhlith prifysgolion traddodiadol y DU, ac yn 3ydd o ran boddhad gyda chefnogaeth academaidd. Ymhellach, cafwyd sgoriau uchel ym meysydd gallu myfyrwyr i gysylltu â staff pan roeddent angen gwneud hynny (5ed yn y DU), ac am degwch o ran trefniadau asesu a marcio (7fed). Yn ddi-os, mae hwn yn ganlyniad rhagorol i'r brifysgol a hyd yn oed yn fwy byth o reswm dros fod yn un o gyn-fyfyrwyr balch Prifysgol Bangor.



“Rydym yn arbennig o falch bod yr arolwg yn ein gosod mor amlwg ar y brig yng Nghymru. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno mentrau i roi llais cryfach i fyfyrwyr yn y brifysgol ac mae llwyddiant ein dull o weithredu wedi'i adlewyrchu yn y canlyniadau hyn.”

Yr Athro Oliver Turnbull,
Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysgu a Dysgu

YR ATHRO DONAL MANAHAN

(PhD Bioleg Môr, 1982)

Mae'r Athro Donal Manahan yn un o gyn-fyfyrwyr mwyaf nodedig Bangor ac yn wyddonydd a gydnabyddir yn rhyngwladol ym meysydd ffisioleg ac addasiad amgylcheddol anifeiliaid môr. Ar hyn o bryd mae'n Is-Ddeon Myfyrwyr yn *Dana and David Dornsife College of Letters, Arts and Science (University of Southern California)*, ac yn Athro Gwyddorau Biolegol.



Yr Athro Donal Manahan ym Mangor, Gorffennaf 2014

CYMRODORIAETHAU ER ANRHYDEDD 2014

Roedd pleser gan Brifysgol Bangor cyflwyno Cymrodoriaethau er Anrhydedd i'r isod yn ystod ein seremonïau graddio yng Ngorffennaf 2014:

- **Yr Athro Anthony Edward Hill OBE**, am wasanaeth i wyddorau eigioneg
- **Beti George**, am wasanaeth i ddarlledu yn y Gymraeg
- **Yr Athro Emeritus Robert Owen Jones OBE**, am wasanaeth i hybu'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia
- **David & Alison Lea-Wilson**, am wasanaeth i fusnes yng ngogledd Cymru
- **Yr Athro Andrew McNeillie**, am wasanaeth i fyd cyhoeddi
- **Dei Tomos**, am wasanaeth i ddarlledu
- **Yr Athro Donal T Manahan**, am wasanaeth i wyddoniaeth
- **Rhys Meirion**, am wasanaeth i gerddoriaeth
- **Yr Athro Jean White**, am wasanaeth i addysg nyrsgo
- **George North**, am wasanaeth i chwaraeon
- **Huw Edwards**, am wasanaeth i newyddiaduraeth a darlledu

Yn Brif Wyddonydd byd-enwog, mae wedi arwain dros 20 o ymgyrchoedd ymchwil i'r Antartig a'r Cefnfor Tawel. Yn ogystal mae wedi sefydlu'r rhaglen hyfforddi rhyngwladol gyntaf erioed i wyddonwyr ifanc ar ranbarthau'r pegynau.

Yn ystod y seremonïau graddio'r haf diwethaf, fe wnaeth Prifysgol Bangor groesawu'r Athro Manahan yn ôl i'r lle y dechreuodd y cyfan, gan gydnabod ei waith a'i lwyddiannau drwy gyflwyno Cymrodoriaeth er Anrhydedd iddo.

Yn wreiddiol o Ddilyn, astudiodd yr Athro Manahan am ei radd gyntaf mewn swoleg yn *Trinity College Dilyn*, cyn dod i Fangor i astudio am ei PhD yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion. Mae wedi cael sawl anrhydedd, yn cynnwys gwasanaethu fel Cadeirydd i'r *U.S. National Academies Polar Research Board* a'r *National Science Foundation Decadal Group-Planning Committee for Ocean Sciences*, ac anrhydedd i ni oedd cael sgwrs â'r gwyddonydd byd-enwog yma am ei atgofion am Fangor a sut y gwnaeth ei gyfnod yma gyfrannu at ddatblygiad ei yrfa hyd yma.

Athro Manahan – sut deimlad oedd dod yn ôl i Fangor i dderbyn yr anrhydedd pwysig yma?

Teimlad braf yw derbyn anrhydedd unrhyw bryd ond mae derbyn anrhydedd gan y sefydliad a ffurfiodd eich gyrfa yn rhywbeth gwirioneddol wych. Roedd derbyn yr anrhydedd yma gan Fangor – fy mhrif ddewis a'r lle wnaeth fy ffurfio fel petai fel gwyddonydd – yn brofiad pur emosiynol. Dwi'n colli glaw Cymru a phan ddeuthum drosodd i dderbyn fy nghymrodoriaeth roedd yn bwrw glaw mân a hynny ynghanol Gorffennaf – tywydd perffaith!

Mae gan fy mam yn arbennig atgofion melys iawn ohonof yn mynd ar y cwch i groesi drosodd o'm tref enedigol, Dilyn, i Gaerdybi am y tro cyntaf. Rodd hynny'n rhywbeth personol iawn i mi, oherwydd pan aeth fy nheulu a minnau yn ôl i Ddilyn i ymweld â mam fe wnaethom gymharu'r gwahaniaeth rhwng y tro cyntaf i mi fynd ar y fferi i Fangor a phan euthum arni y tro yma i dderbyn fy Nghymrodoriaeth er Anrhydedd. Daeth â llun o atgofion yn ôl – roedd fel camu'n ôl mewn amser!

Pam wnaethoch chi ddewis astudio ym Mangor?

I mi Bangor oedd y dewis cyntaf yn y byd i gyd a'r lle enwocaf i fynd i astudio fy mhwn. Roedd Bangor yn arloesi mewn astudio'r anifeiliaid lleiaf ac ymchwil i

feysydd integredig, megis astudio'r organeb cyflawn a'u ffisioleg a'u biocemeg. Roedd ganddi hyfforddiant rhyfeddol i fyfyrwyr ar draws y disgyblaethau hynny, ac mae hynny'n wir o hyd. Roedd yn lle delfrydol i ddechrau gyrfa a bu'r sylfaen a gefais yno yn allweddol i'm gyrfa gyfan.

Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf?

Dau beth ... yn gyntaf roedd yna wir ymdeimlad o hyder. Roedd gennyf yr hyder bod y gwaith roeddwn yn ei wneud yn wirioneddol bwysig yn rhyngwladol. Mae'n bwysig iawn i fyfyrwyr PhD ifanc gael ffydd ynddynt eu hunain ac fe wnaeth Bangor roi hynny i mi'n sicr.

Yn ail, roedd Bangor yn rhyngwladol iawn ei natur ac mae'n parhau felly. Oherwydd hynny deuthum i gysylltiad â myfyrwyr rhyngwladol a roddodd ffyrdd newydd o feddwl am bethau i mi. Fe roddodd 'hyder rhyngwladol' i mi fel petai.

Wnaeth hynny eich helpu i ddatblygu eich gyrfa yn yr Unol Daleithiau?

Do'n sicr! Fe wnaeth fy ngwaith ym Mangor ddal sylw rhai o'r gwyddonwyr amlycaf yma yng Nghalifornia ac fe wnaethant fy noddi i ddod drosodd yma i'r Unol Daleithiau. Pan ddeuthum i America roedd gan bobl lawer o barch at y gwaith a'r hyfforddiant roeddwn wedi'i wneud ym Mangor. Fe roddodd hynny hwb arall o hyder i mi gan wneud i mi sylweddoli y gallwn wneud cyfraniad ar raddfa fwy. Ac, ar ôl treulio 30 mlynedd yma, dwi'n gobeithio fy mod wedi gwneud hynny!

Mae gan Fangor arbenigedd neilltuol ym maes gwyddorau'r eigion ac, yn ddi-os, mae'n parhau i gynnig un o'r rhaglenni disgleiriaf ym Mhrydain i rai sydd am astudio'r cefnforoedd.

Beth yw eich atgofion gorau o fod ym Mangor?

Dwi'n meddwl mai'r atgofion gorau oedd nad oedd yna unrhyw rwystrau deallusol ac mae hynny'n awyrgylch ryfeddol i unrhyw fyfyrwr! Doedd yna ddim ffiniau na chyfyngiadau – roedd yn lle eithriadol o bositif.

Roedd yr ystafell de yn drobwl deallusol. Roeddem yn siarad yn ddi-baid am wyddoniaeth (ac weithiau am y tywydd!). Cefais y pleser o fod yng nghwmni grŵp o fyfyrwyr arbennig iawn yr adeg honno ac erbyn hyn mae llawer ohonom wedi mynd i wahanol

fannau ar hyd a lled y byd, ond rydym yn dal i ddod yn ôl at ein gilydd yn aml. Roedd yr Athro Chris Richardson (Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Eigion) a minnau yn fyfyrwyr PhD gyda'n gilydd. Mae yna nifer ohonom yn yma yn America ac rydym yn cyfarfod mewn cynadleddau'n rheolaidd.

Ydych chi'n cofio'ch taith gyntaf un o'r Antartig?

Ydw, fel petai hi'n ddoe! Roeddwn yn bur betrus cyn cychwyn! Nid yn gymaint oherwydd yr amgylchedd – roeddwn yn gwybod y byddai'n oer a chaled yno. Ond yr hyn oedd fy mhoeni fwyaf oedd yr holl gynllunio a chofio i ddod â phopeth roeddem ei angen – roedd hynny'n fy arswydo oherwydd ni allem fforddio anghofio unrhyw beth. Roeddwn wedi darllen llawer am yr arloeswyr cynnar yn y rhan honno o'r byd ac roedd gweithio yn yr un amgylchedd â nhw dros ganrif yn ddiweddarach yn brofiad pur ysgytwol. Dwi'n cofio teimlo fel pe bawn i'n cerdded yn ôl eu traed, yn arbennig yn ystod fy nhaith gyntaf yn 1983.

Beth ydych chi fwyaf balch ohono yn eich gyrfa hyd yma?

Bod yn gyfarwyddwr arloesol y rhaglen hyfforddi ryngwladol yn Antartica fyddwn i'n dweud. Daeth â myfyrwyr atom o 30 o wahanol wledydd ac o 100 o brifysgolion ledled y byd a doedd neb wedi gwneud hyn o'r blaen. Cyfunodd hyn fy awch dros addysg gyda'm hawch dros ymchwil ac fe agorodd y drysau i'r genhedlaeth nesaf ddeall sut i astudio yn yr amgylcheddau anodd hyn.

Ar ôl arwain dros 20 o deithiau ymchwil i'r Antartig, mae'n rhaid i ni ofyn beth wnaeth eich tynnu i'r fan honno yn y lle cyntaf?

Mae'r rhan helaethaf o'r blaned daear yn oer a sylweddolais mai'r hyn mae pobl yn ei astudio fwyaf o bell ffordd yw agweddau ar y manau cynnes hynny y mae pobl yn byw ynddyn nhw. Roeddwn i eisiau gweld a oedd yr hyn roeddwn wedi'i ddsygu yn gweithio yn y llefydd oer hefyd.

Oes gennych chi unrhyw gynlluniau i fynd yn ôl i'r Antartig yn fuan?

Mae gennym ni gynlluniau ar y gweill drwy'r adeg ac rydym yn gweithio ar syniadau newydd ond does dim wedi'i gadarnhau hyd yma. Mae'n



cymryd blwyddyn neu ddwy i gynllunio taith ac mae'n gymhleth iawn ond dwi'n mwynhau'r rhan yma o'r gwaith. Dwi'n mwynhau'r cynllunio!

Ac mae'n rhaid i ni ofyn i chi am Manahan Peak...

Cefais lythyr drwy'r post 15 mlynedd yn ôl yn dweud eu bod yn bwriadu enwi mynydd 6000 o droedfeddi i'm hanrhydeddu ac roedd hynny'n golygu llawer iawn i mi. Mae gan fy mam gopi o'r plac yn ei chartref yn Nulyn hyd heddiw. Dyma stori ddigri i chi ... Roeddwn i lawr yn yr Antartig ychydig flynyddoedd yn ôl a daeth myfyrwr ataf a gofyn "Mae na *Manahan Peak* yn yr Antartig yn does, ydi o'n rhywun rydych chi'n gwybod amdano?" ac atebais wrth gwrw, "Wel, fi ydi o a dweud y gwir!". Roedd y myfyrwr a'i ffrindiau wedi'u syfrdanu gan fod yna lawer o gopaon yno sydd wedi'u henwi ar ôl gwyddonwyr a fforwyr oedd yno ganrif yn ôl, ac roeddent yn meddwl ei fod wedi'i enwi ar ôl rhywun oedd yno efo'r arloeswyr cynnar, fel Scott neu Shackleton.

Ydych chi'n gweld y newidiadau pan fyddwch yn mynd yn ôl i ardal y pegynau?

O ydw – mae'r dystiolaeth dros newid hinsawdd yn amlwg iawn. Er enghraifft, pan wnes i hedfan i'r Antartig ychydig flynyddoedd yn ôl roedd Syr David Attenborough (a dderbyniodd Radd er Anrhydedd hefyd o Fangor yn 2009) ar yr un awyren yn mynd allan i ffilmio ei gyfres, *Frozen Planet*. Fe wnaethom edrych ar lun roedd o wedi ei dynnu yno 30 mlynedd ynghynt a gallem weld cymaint roedd y rhewlifau wedi symud.

Mae'r amgylchedd yn amlwg yn agos iawn at eich calon; fydddech chi'n dweud ei fod yn hobi y tu allani i'ch gwaith yn USC?

Ydi! Dwi wrth fy modd yn siarad yn gyhoeddus ac yn naturiol mae gen i ddi-ddordeb eithriadol yn yr amgylchedd. Dwi'n barod iawn i siarad am yr amgylchedd a dwi wedi siarad am y pwnc mewn llawer o lefydd, o Gyngres yr Unol Daleithiau yn cadeirio Bwrdd yr Academi Genedlaethol Gwyddoniaeth, i siarad mewn clybiau tenis a rotari. Dwi'n credu'n gryf bod gan y rhai ohonom sy'n deall tipyn am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn yr amgylchedd ddyletswydd

i drosglwyddo'r wybodaeth hon a'i hegluro tu hwnt i'r ffyrdd traddodiadol o ddarllen erthygl neu wyllo rhaglen ddogfen. Dwi'n mwynhau mynd ag addysg allan i'r cyhoedd yn gyffredinol! Hefyd dwi'n cael pleser yn myfyrto ar bethau, teithio rhyw gymaint, a dwi'n mwynhau nofio hefyd.

Ydi bywyd yn wahanol iawn yn Los Angeles o'i gymharu â Bangor a'ch tref enedigol, Dulyn?

Roedd Los Angeles yn grynn syndod a dweud y gwir. Yr hyn wnaeth fy rhyfeddu fwyaf oedd y wyddoniaeth yma – mae cymaint o bobl yn gweithio mewn gwyddoniaeth ac mae California yn un o'r arweinwyr yn y maes. Fe ddeuthum yma oherwydd fy mod i eisiau cymryd rhan yn hynny ond doeddwn i ddim yn sylweddoli mor enfawr oedd o. Unwaith eto, dwi'n canu clodydd Bangor yma, gan i'r paratoad a gefais yno fy helpu'n eithriadol i ymaddas i'r cyflymder newydd yma mewn gwyddoniaeth.

Bangor wnaeth fy holl yrfa mewn gwyddoniaeth – yno y dechreuodd y cyfan!



“Dyma fi mewn siwt sych – ar fin plymio dan gap iâr'r pegwn. Hwn ydi un o'm hoff luniau ac fe'i tynnwyd yn ystod un o'm teithiau cyntaf i'r Antartig 30 mlynedd yn ôl.”

Syr Dave Brailsford yn agor canolfan chwaraeon newydd



Ymwelodd Syr Dave Brailsford â Phrifysgol Bangor yn Nhachwedd i agor Canolfan Brailsford yn swyddogol. Cafodd y ganolfan chwaraeon, sydd newydd ei hadnewyddu, ei hailenwi i anrhydeddu gyrfa nodedig y rheolwr beicio a'i gyfraniad i chwaraeon.

Magwyd Syr Dave ym mhentref Deiniolen ger Bangor. Yn siaradwr Cymraeg rhugl, gadawodd Ogledd Cymru yn 18 oed am Ffrainc i gystadlu'n lled-broffesiynol fel beiciwr cyn dychwelyd i Brydain yn ddiweddarach i astudio gwyddor chwaraeon. Aeth ymlaen wedyn i gael gyrfa nodedig gyda *British Cycling*.

Fel rheolwr presennol *Team Sky* (tîm beicio proffesiynol Prydain) a chyn Gyfarwyddwr Perfformio *British Cycling*, mae Syr Dave wedi arwain tîm Prydain i ennill 8 medal aur yn y gemau Olympaidd ac at fuddugoliaethau Bradley Wiggins yn *Tour de France* 2012 a 2013.

Roedd Syr Dave Brailsford eisoes wedi derbyn MBE a CBE cyn cael ei urddo'n farchog am ei wasanaeth i feicio ac i gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

Mae buddsoddiad o £2.5m yn y ganolfan chwaraeon wedi rhoi campfa ddeulawr newydd sbon, stiwdio aerobeg newydd, caffî chwaraeon newydd gyda'r ystafelloedd newid cyhoeddus a'r cawodydd wedi eu hadnewyddu a'u huwchraddio'n llwyr, a llawr newydd yn y brif neuadd chwaraeon.

Mae'r project hwn yn rhan o fuddsoddi ehangach mewn cyfleusterau chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor sy'n cynnwys y cyfleuster £500,000 tenis a phêl-rwyd dan do newydd sydd ynghlwm wrth Ganolfan Brailsford a chae artiffisial trydedd genhedlaeth ar dir Clwb Pêl-droed Dinas Bangor yn Nantporth, sydd erbyn hyn yn gartref i dimau myfyrwyr y brifysgol a llu o glybiau'r gymuned.

Uchafbwynt yr agoriad swyddogol oedd sesiwn holi ac ateb i rai o fyfyrwyr y Brifysgol sy'n athletwyr. Cawsant gyfle i holi Syr Dave Brailsford a chael nifer o gynghorion ymarfer defnyddiol ganddo. Dyma oedd gan Ryan Doggart, Ysgrifennydd Clwb Seiclo Prifysgol Bangor, i'w ddweud:

"Roedd yn gyfle gwyb i'r clwb gael cyfarfod un o'r dynion mwyaf dylanwadol ym maes seiclo ym Mhrydain a thrwy'r byd, yn ogystal ag un o fy arwyr beicio personol i. Roeddem yn ffodus iawn i gael rhai cynghorion defnyddiol iawn yn ystod y sesiwn holi ac ateb lle roedd Syr Dave yn agored iawn a pharod i rannu ei gyfoeth o wybodaeth am feicio efo ni. Mae'r cyfleusterau newydd yn anhygoel ac wedi fy ngalluogi i a gweddill y clwb i wella ein sgiliau beicio."



Uchod: Syr Dave Brailsford efo aelodau Undeb Athletau Prifysgol Bangor
Isod: Syr Dave Brailsford efo Is-Ganghellor, yr Athro John Hughes



Lansiad Coleg Bangor Yn Tsieina



Uchod: Is-Ganghellor, yr Athro John Hughes, yn agoriad Coleg Bangor yn Tsieina

Bu mwy na 260 o fyfyrwyr yn dathlu agoriad Coleg Bangor Tsieina yn eu mamwlad. Cynhaliwyd seremoni arbennig, wedi ei threfnu gan *Central South University of Forestry and Technology, Changsha*, Tsieina yn Neuadd Gynadledda'r brifysgol yn Changsha, ddydd Sadwrn, 27 Medi. Mae Prifysgol Bangor yn falch o fod yn rhan o'r cynllun ar y cyd cyntaf rhwng Cymru a Tsieina i sefydlu coleg newydd yn Tsieina.

Lansiwyd Coleg Bangor Tsieina gan Yr Athro John Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor a'r Athro Xianyan Zhou, Llywydd *Central South University of Forestry and Technology (CSUFT)*.

Roedd Athro John Thornton, Pennaeth Ysgol Busnes Bangor a chynrychiolwyr eraill o Fangor hefyd yn bresennol yn y seremoni. Y gwsteion er anrhydedd oedd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig ar gyfer De Tsieina. Rhoddodd y ddau anerchiadau yn llongyfarch Coleg Bangor Beijing.

"Mae Coleg Bangor Tsieina o bwysigrwydd strategol i Brifysgol Bangor," meddai'r Athro John Hughes. "Mae'r brifysgol yn gyfrifol am ansawdd dysgu, addysgu ac asesu Coleg Bangor Tsieina ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni pwrpasol o ansawdd uchel i fyfyrwyr y coleg." Mae hwn yn gytundeb hanesyddol i'r ddau sefydliad. Mae'n dod ag ansawdd ragorol addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Bangor yn nes at fyfyrwyr yn Tsieina ac ar y llaw arall mae'n rhoi cyfleoedd cyffrous i fyfyrwyr ac academyddion Bangor i brofi addysg a syniadau yn Tsieina."

Yn ystod y seremoni bu myfyrwyr y coleg a myfyrwyr cerddoriaeth *CSUFT* yn diddanu'r gwsteion gyda pherfformiadau o ganeuon a dawnsfeidd Tsieinëeg traddodiadol, a chafwyd cysylltiad bywiog rhwng myfyrwyr Coleg Bangor Tsieina a staff Bangor yn ystod y digwyddiadau gyda'r nos.

Ar hyn o bryd mae Coleg Bangor Tsieina yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau isradd mewn Bancio a Chyllid, Cyfrifeg a Chyllid, a Pheirianeg Electronig. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i ymestyn y pynciau i feysydd eraill sydd o fewn arbenigedd Bangor, yn cynnwys Coedwigaeth ac Astudiaethau Amgylcheddol. Mae Coleg Bangor Tsieina wedi cael cylch recriwtio cyntaf llwyddiannus iawn, ac mae llawer o fyfyrwyr *CSUFT* yn awyddus i drosglwyddo i Goleg Bangor oherwydd ein rhagoriaeth academaidd a'n henw da rhyngwladol.

Neuaddau Preswyl Newydd Ar Safle'r Santes Fair

Mae Safle Santes Fair y brifysgol yn cael buddsoddiad o dros £30 miliwn i roi bywyd newydd i'r hen safle. Bydd y datblygiad yn creu 'pentref myfyrwyr' newydd yn ogystal â rhoi bywyd newydd i'r safle gyda 600 o ystafelloedd llety newydd gyda chyfleusterau modern a nifer o wahanol ddewisiadau. Bydd y datblygiad cyffrous yn galluogi'r brifysgol i ymateb i'r galw gan fyfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn sydd eisiau byw mewn neuaddau.

Bydd yr hen adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd ar y safle yn cael eu hadnewyddu ynghyd ag adeiladu adeiladau newydd. Bydd yr amrywiaeth o lety yn cynnwys tai tref a fflatiau stiwdio, yn ogystal â neuaddau preswyl mwy traddodiadol. Bwriedir agor y safle hwn ar ei newydd wedd ddechrau'r flwyddyn academaidd yn 2015.

Dywedodd Yr Athro Carol Tully, Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) y Brifysgol: "Bydd yr ystafelloedd newydd yn cynnwys yr holl gyfleusterau y byddai myfyrwyr heddiw yn disgwyl eu gweld ar gampws preswyl modern. Bydd yn cynnig y gorau i fyfyrwyr mewn cyfforddusurwydd a chynllun gyda chaffi bar, siop, lle golchi dillad a chyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd i gyd ar y safle. Wrth wraidd y

cynllun mae ymrwymiad i ddarparu gwir ymdeimlad o gymuned gyda gwell amgylchedd i gymdeithasu a byw ynddo."

Eglurodd bod llawer o fyfyrwyr yn yr ail a'r drydedd flwyddyn yn gwneud cais am le mewn neuaddau preswyl bob blwyddyn, ond bod diffyg lle yn golygu bod llawer ohonynt yn gorffod troi i'r sector preifat. Gyda'r ystafelloedd newydd a grëwyd yn y datblygiad hwn, bydd llawer o'r myfyrwyr hyn yn gallu cael lle yn ein llety i fyfyrwyr.



Cynhelir aduniad alumni Santes Fair i ddathlu ailddatblygiad y safle ym mis Medi. Bydd fwy o wybodaeth yn dod yn fuan.



Cydnabyddir bod 77% o ymchwil Prifysgol Bangor gyda'r orau yn y byd

Mae canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 yn cadarnhau bod tri chwarter ymchwil Prifysgol Bangor naill ai gyda'r orau yn y byd neu o safon ryngwladol ragorol. Ar sail cyflwyniad y brifysgol mewn 14 Uned Asesu cafodd 77% o'r ymchwil ei gosod yn y ddwy haen uchaf o ran ansawdd ymchwil, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg holl brifysgolion y Deyrnas Unedig.

Mae ymchwil yn yr ysgolion a ganlyn wedi cael ei **rhoi yn yr 20 uchaf yn y DU**:

- Gwyddorau Chwaraeon
- leithoedd Modern
- Cymraeg
- Addysg
- Ieithyddiaeth
- Gwyddorau Cymdeithas
- Gwyddorau'r Eigion
- Gwyddorau Biolegol
- Yr Amgylchedd
- Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth
- Seicoleg
- Gwyddorau Gofal Iechyd a Gwyddorau Meddygol

Cafwyd perfformiad cryf gan yr ysgolion canlynol, gyda phob un yn cyfrannu at sicrhau bod y **canran uchel o 77% o ddeunydd ymchwil y Brifysgol yn cael sgôr 4* neu 3***:

- Llenyddiaeth Saesneg
- Hanes
- Hanes Cymru ac Archaeoleg
- Cerddoriaeth
- Y Gyfraith
- Ysgol Busnes Bangor
- Peirianeg Electronig
- Cemeg
- Cyfrifiadureg

Caiff enw da Prifysgol Bangor fel prifysgol ymchwil o safon fyd-eang ei bwysleisio ymhellach **gan ddau uchafbwynt arall yn ein canlyniadau**:

- Fe'n rhoddwyd yn safle 39 yn y DU (heb gyfrif sefydliadau arbenigol a phrifysgolion oedd yn cyflwyno mewn un uned asesu yn unig).
- Cafodd 8 o'n 14 cyflwyniad sgôr GPA (sef mesur o ansawdd ymchwil) uwch na 3.0 allan o'r sgôr uchaf bosibl o 4.0.

Rydym yn falch hefyd ein bod wedi dyblu'r ymchwil 4* a wnaed gennym ers i'r dadansoddiad diwethaf gael ei gynnal.

Mae hwn yn berfformiad rhagorol gan Brifysgol Bangor. O'r cyfraniad sylweddol a wnawn at wella gofal iechyd a lles, dwyieithrwydd ac amddiffyn yr amgylchedd, mae'n amlwg bod yr ymchwil a wneir gan academyddion Bangor yn cael effaith economaidd sylweddol yn rhyngwladol, yn ogystal ag effaith ar fywydau pobl ledled y byd.

Yr Arglwydd Brif Ustus yn agor Ffug Lys Barn newydd



Fis Hydref daeth Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, i'r Brifysgol i agor yn swyddogol Ffug Lys Barn newydd, yn cynnwys y ddarpariaeth a'r offer diweddaraf. Mae hyn yn cadarnhau ymhellach safle Bangor fel Ysgol y Gyfraith flaengar ymysg prifysgolion Prydain, gan bwysleisio cyflogadwyedd a datblygiad sgiliau myfyrwyr fel elfen graidd o'i chwricwlwm gradd LLB yn y Gyfraith.

Canmolodd yr Arglwydd Thomas lwyddiannau Ysgol y Gyfraith a phwysleisiodd ei bod yn eithriadol bwysig i fyfyrwyr feithrin sgiliau eiriol a dadlau fel ffordd o baratoi at yrfa yn y gyfraith. Ymhellach, mae llwyddiant diweddar myfyrwyr Y Gyfraith o Fangor mewn cystadlaethau eiriol a ffug lysoedd barn, yn genedlaethol a rhyngwladol, yn tystio i ansawdd uchel yr addysgu a'r ymarfer o ymdrin â sefyllfaoedd sy'n efelychu'r byd go iawn a gaiff myfyrwyr yma.

Mae Ysgol y Gyfraith Bangor wedi cynnal wyth cystadleuaeth fewnol ac, yn ystod 2014 yn unig, cymerodd ran mewn pum cystadleuaeth allanol gan ennill y wobrgyntaf hefyd yng Nghystadleuaeth Ffug Lys Cenedlaethol Gymreig LexisNexis yn gynharach yn y flwyddyn. Hwyl oedd yr Ysgol y Gyfraith gyntaf erioed o Gymru i gystadlu yn Ffug Lys Barn Rhyngwladol Telders yn 2013. Hwyl oedd y tîm o Brydain a berfformiodd orau yno a chawsant sgôr uwch hyd yn oed yng nghystadleuaeth 2014. Mae'r tîm yn awr yn paratoi at gystadleuaeth 2015 ac maent yn gobeithio y bydd y cyfleuster newydd yn datblygu eu sgiliau ymhellach gan fod yn hynod werthfawr ar gyfer eu paratoadau.

"Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Ysgol y Gyfraith ym Mangor wedi dangos yn amlwg ei sgiliau ym maes ffug lysoedd," meddai'r Athro Dermot Cahill, Pennaeth Ysgol y Gyfraith Bangor. Bydd y buddsoddiad sylweddol yma gan y Brifysgol yn gwella siawns myfyrwyr y gyfraith o gael swydd, dod â mwy o gystadlaethau allanol i Fangor, a gwella ansawdd yr adnoddau dysgu i'r modiwlau Sgiliau Cyfreithiol a Ffug Ddadleuon Llys."



Grŵp 2020 Bangor

Mae Bangor 2020 yn grŵp busnes sy'n rhoi cyfle i gyn-fyfyrrwyr a chyfeillion Bangor gwrdd â'i gilydd i rwydweithio'n broffesiynol a chreu cysylltiad â'r brifysgol. Mae'r aelodau, sydd wedi'u lleoli yn Llundain a'r ardal gyfagos, yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i glywed am y gweithgareddau ymchwil a'r projectau diweddaraf ym Mangor ac i gael sgwrs. Gwahoddir siaradwr gwadd i bob cyfarfod hefyd i roi cyflwyniad i'r grŵp am eu harbenigedd a'u diwydiant.

Mae'r aelodau wedi rhoi rhywbeth yn ôl i'r Brifysgol hefyd trwy gynghori'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, helpu gyda digwyddiadau, bod yn ddarlithwyr gwadd, bod yn aelodau o fyrdau'r brifysgol, cyfrannu at Gronfa Bangor a chefnogi ysgoloriaethau o fewn gwahanol ysgolion y brifysgol.

Cynhaliwyd ymweliad diweddaraf y grŵp 2020 â Bangor yn ystod mis Hydref lle buont yn gwrandao ar nifer o siaradwyr a chymryd rhan mewn gweithdy Technocamps dan arweiniad Dr Dave Perkins,

Cydllynydd Technocamps ym Mangor. Ymhlith y siaradwyr oedd Dr Eimir Young, pennaeth Datblygu Cynaliadwy yn y brifysgol, a Phil Nelson ac Eleanor Heather o Ganolfan Newid Ymddygiad Cymru. Bu'r grŵp hefyd yn mwynhau gwrandao ar rai o'n hól-raddedigion sydd wedi derbyn ysgoloriaethau yn rhoi cyflwyniadau am eu projectau ymchwil.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod i gyfarfod yn y dyfodol, cysylltwch ag: alumni@bangor.ac.uk

ALUMNUS YN HELPUSICRHAU SWYDD I BERSON GRADDEDIG



Dr George Buckley
(Economeg, 1993)

Ar ôl graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Cyfrifeg a Chyllid eleni, mae Janine Schofield ar gynllun hyfforddi i raddedigion gyda *PriceWaterhouseCooper* i gymhwyso fel cyfrifydd siartredig. Mae Janine yn ddiolchgar am y cysylltiadau gydag alumni Bangor a lwyddodd i atgyfnerthu ei CV a'i helpu i gael lle ar y cynllun cystadleuol hwn.

Eglurodd Janine, "Cefais wahoddiad i fynd i gyfarfod Grŵp 2020 Bangor i roi gwybodaeth iddynt am sut y mae myfyrwyr heddiw yn meddwl y gall yr alumni helpu myfyrwyr presennol. Awgrymais y byddai'n fuddiol iawn pe byddai aelodau yn gallu cynnig profiad gwaith neu roi gwybodaeth am eu gwaith bob dydd. O ganlyniad, treuliais ddau ddiwrnod yn cysgodi George Buckley (Economeg, 1993), Prif Economegydd y DU yn *Deutsche Bank*. Trwy hyn dysgais lawer am fywyd gwaith gweithiwr proffesiynol. Roeddwn yn gallu ei gynnwys yn fy CV. Cododd hyn gwestiynau mewn cyfweiliadau ac

roeddwn yn gallu dangos fy sgiliau rhwydweithio a fy mharodrwydd i ddsygu. Roedd yn brofiad gwych ac rwy'n siŵr ei fod wedi fy helpu i gael swydd gyda *PWC*. Rwy'n ddiolchgar iawn i George a gobeithio y gallaf innau ryw ddiwrnod wneud yr hun peth i helpu myfyrwr arall o Fangor."

Meddai George Buckley:

"Roeddwn wrth fy modd pan lwyddodd Janine i dreulio ychydig o ddiwrnodau yn Deutsche Bank ac mae'n dda gweld bod ei holl waith caled yn ystod ei gyrfa yn y brifysgol wedi arwain at gael cynnig swydd yn un o'r 'prif bedwar' cwmni cyfrifeg."



Janine Schofield
(Cyfrifeg a Chyllid, 2014)



Adeiladu ar Lwyddiant



Diolch i'r rhoddion a gafwyd gan ein cyn-fyfrwyr hynod hael, gallodd Cronfa Bangor roi £91,000 i 17 o broiectau ar draws y brifysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf (2013/14). Prif ddiben y Gronfa yw galluogi'r brifysgol i gyfoethogi a rhoi elfennau ychwanegol i'r profiad a gaiff ei myfyrwyr ac rydym yn falch o botensial pob un o'r proiectau yn hyn o beth.

Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r rhoddion hyn yn ystod y telethon a gynhaliwyd dan arweiniad myfyrwyr ac maent yn rhoi cyfle i bob cyn-fyfriwr - waeth beth yw maint eu rhodd - i roi rhywbeth yn ôl i'w prifysgol. Cafodd y myfyrwyr ar y tîm ffonio foddhad a phleser mawr yn siarad â'r cyn-fyfrwyr hynny y gwnaethant lwyddo i gysylltu â hwy. Ni fyddem wedi medru rhoi'r grantiau sylweddol ac amrywiol hyn heb eich cyfraniadau gwerthfawr chi. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd eleni.

Cofion gorau,

Dyma rai o'r grantiau a ddyfarnwyd y llynedd:



Emma Marshall
Cyfarwyddwr Cronfa Bangor



Digideiddio Herbariwm Prifysgol Bangor

Mae'r Herbariwm yn llyfrgell gyfeiriadol o blanhigion, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd gan lawer o gasglwyr. Mae casgliad Bangor yn cynnwys planhigion o bob rhan o'r byd, yn eu plith enghreifftiau sy'n mynd yn ôl i'r ddeunawfed ganrif. Mae'r project digideiddio'n creu cronfa ddata ar-lein o'r casgliad cyfan, a fydd yn cynnwys delweddau clir ac unrhyw ddata sydd ar gael am darddiad yr eitemau. Mae ein herbariwm yn unigryw ac mae'n cynnwys holl blanhigion Gogledd Cymru a hefyd nifer sylweddol o enghreifftiau o blanhigion rhyngwladol. Unwaith y bydd wedi'i ddigideiddio, bydd yn adnodd pwysig i fyfyrwyr ac i ecolegwyr, daearyddwyr a haneswyr, ym Mangor ac yn rhyngwladol. Mae'r casgliad hefyd yn adnodd gwerthfawr iawn ar gyfer llunio strategaethau rhyngwladol i atal colli bioamrywiaeth planhigion.



Os hoffech roi rhodd, nid oes raid i chi ddisgwyl i un o'n myfyrwyr eich ffonio. Gellwch gyfrannu drwy glicio botwm ar ein gwefan:

www.bangor.ac.uk/giving/how_to_give.php.cy

neu os hoffech drafod sut i gyfeirio eich rhodd at ddiben penodol, gellwch gysylltu â mi drwy'r manylion isod.

E-bost: e.marshall@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 382594

Cymorth Myfyrwyr

- Rhaglen i gefnogi ein myfyrwyr sydd ar y sbectwrwm awtistiaeth ac sydd angen mwy o gefnogaeth efallai. Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i bobl ddysgu sgiliau ymwneud cymdeithasol neu strategaethau cymdeithasol amgen. Meddai Esther Griffiths, Cyngorwr Anabledd ym Mangor, "Mae'r myfyrwyr sy'n mynd i'r rhaglen wedi bod yn rhoi sylwadau cadarnhaol iawn amdani. Rydym eisiau i'r sesiynau gyfoethogi profiad y myfyrwyr yma ym Mangor ac yn aml defnyddir sefyllfaoedd yn ymwneud â'r brifysgol fel enghreifftiau ac i ddibenion modelu. Mae llawer o'r sgiliau a ddysgir hefyd yn gwella siawns y myfyrwyr o gael gwaith."

"Clwb Lles"

- Rhaglen ymarfer corff a gynigir ar y cyd gan y Gwasanaeth Cwnsela a Chanolfan Chwaraeon Brailsford i fyfyrwyr sy'n dioddef o iselder neu orbryder.

Rhwydweithio rhithwir a manau dysgu cymdeithasol

- Ar gampws yr Ysgol Gwyddorau Gofal lechyd ym Mangor ac yn Wrecsam. Bydd y project yn creu mwy o gyfleoedd i rannu dysgu ar draws y ddau safle, gan gyfoethogi profiad y myfyrwyr a chynyddu'r cyfleoedd rhwydweithio i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Gwelliannau i gaeau chwarae a phafiliwn Treborth

- Gosodwyd rhwydi i rwystro peli rhag mynd ar goll yn y mieri ar y llethrau serth a phrynwyd dodrefn i'r pafiliwn chwaraeon.

Prynu casgliad o offerynnau cerddoriaeth y byd

- Gall myfyrwyr chwarae offerynnau'r casgliad a bydd o gymorth i ddysgu ethnogerdoreg a cherddoriaeth byd ym Mangor. Mae'r casgliad yn cynnwys; set o ddrymiau Tabla a Chlustogau o'r India, dau Gender safon Gamelaidd o Indonesia; Cuica o Frasil, Gitâr Portiwgalaid, Drwm Dur o Jamaica, Oud Arabaidd, Sither Hwngaraidd a thair Ffliwt Bambŵ o'r India. Mae'r casgliad yn ychwanegiad at Gasgliad Peter Crossley-Holland o offerynnau'r byd yn y Brifysgol. Mae'r offerynnau hynny'n adnodd unigryw i ddibenion ymchwil ac astudio ond, oherwydd eu gwerth a'u bregusrwydd, ni ellir eu defnyddio i chwarae cerddoriaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddau gasgliad yn galluogi myfyrwyr Cerdd Bangor i ddysgu am gerddoriaeth ledled y byd mewn ffordd wirioneddol holistig, gan gyfuno astudio academaidd, gweithgaredd ymarferol a chelfyddyd greadigol.



Darlith Goffa Dr Tom Parry Jones

Ym Mawrth 2014 fe wnaeth Dr Raj Parry Jones gyfarch ffrindiau, staff y Brifysgol ac alumni yn ystod darlith goffa ar entrepreneuriaeth i'w diweddar ŵr, Dr Tom Parry Jones OBE. Yn coffau ei fywyd roedd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ynghyd â'r Is-ganghellor, Yr Athro John Hughes.


Roedd Dr Tom Parry Jones yn un o gyn-fyfyrwyr mwyaf nodedig ac uchel ei barch Bangor. Yn entrepreneur a dyfeisiwr adnabyddus, datblygodd yr Anadlydydd Electronig cyntaf yn y byd ym 1974.

Yn enedigol o Amlwch yn Sir Fôn, graddiodd mewn Cemeg yn 1958 gan fynd ymlaen i Brifysgol Alberta yng Nghnada i astudio am ei PhD cyn dychwelyd i Brydain i weithio yn y byd academiaidd. Sefydlodd Lion Laboratories yn 1967, lle datblygodd a marchnata ei ddyfais fyd-enwog.

Dros 12 mlynedd yn ôl fe wnaeth Tom, a'i wraig Raj, sefydlu'n hael iawn Gronfa Waddol Dr Tom Parry Jones yn y Brifysgol gyda'r nod o hyrwyddo entrepreneuriaeth mewn gwyddoniaeth a pheirianeg ymysg pobl ifanc. Mae Tom a Raj wedi bod yn hyrwyddwyr nodedig i Brifysgol Bangor ac mae llawer o aelodau staff, alumni a chefnogwyr eraill yn eu hadnabod. Roedd enw da Dr Tom Parry Jones yn fyd-eang a'i frwdfrydedd gwirioneddol dros ddatblygu economi Cymru yn y dyfodol - drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael cefnogaeth dda i ddatblygu eu gwybodaeth wyddonol a'u sgiliau entrepreneuraidd - yn ei wneud yn gyn-fyfyrwr gwerthfawr o Brifysgol Bangor. Nid yw'n syndod, felly, bod nifer dda iawn wedi dod i'r ddarlith goffa, gydag alumni, staff a chyfeillion Prifysgol Bangor yn mwynhau clywed am ei waith a'i lwyddiannau.



Uchod: Yr Is-Ganghellor yr Athro John Hughes efo Dr Raj Parry Jones ac Y Gwir Anrh, Carwyn Jones AC
Isod: Dr Tom Parry Jones



Dyfarnu Medaliwn Churchill Pwysig

Mae'r Athro Nigel John o'r Ysgol Cyfrifiadureg, un o athrawon amlycaf Prifysgol Bangor, wedi ennill Medaliwn Churchill. Cyflwynwyd Medaliwn Churchill iddo mewn seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yn Llundain yn ddiweddar, ar ôl iddo gwblhau Cymrodoriaeth Deithio Winston Churchill.

Pwrpas y cymrodoriaethau hyn yw galluogi academyddion i deithio dramor i gasglu syniadau arloesol. Fel rhan o'i gymrodoriaeth, teithiodd yr Athro John i Singapore ac Awstralia i ymchwilio i glaf rhithwir a efelychir ar gyfrifiadur i hyfforddi clinigwyr gyda'r bwriad o sefydlu cysylltiadau cydweithio newydd mewn ymchwil yn y maes hwn.

Yn ogystal â bod yn Athro Cyfrifiadureg yma ym Mangor, mae'r Athro John hefyd yn gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Cyfrifiadura Gweledol Cymru

(*RIVIC*). Ar ôl dod i Fangor yn 2003, sefydlodd ymchwil ym maes delweddu a graffeg feddygol, ac mae'n parhau i arwain grŵp deinamig o ymchwilwyr yn y maes hwn. Mae hefyd wedi bod yn gyfrifol am drefnu amrywiaeth o broiectau a gyllidwyd gan gynghorau ymchwil a chan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddelweddu ac amgylcheddau rhithwir. Mae gan yr Athro John hefyd brofiad helaeth mewn diwydiant ac mae wedi gweithio yn y diwydiant fferyllol a'r diwydiant graffeg.

Dyma ddywedodd yr Athro John am y gymrodoriaeth: "Mae'r cymrodoriaethau teithio yn rhoi cyfle i ddinasyddion Prydeinig fynd dramor ar fenter gwerth chweil o'u dewis, gyda'r bwriad o gyfoethogi eu bywydau trwy brofiadau ehangach - a dod â budd yn ôl i eraill yn eu proffesiwn neu'r gymuned yn y DU trwy rannu eu gwybodaeth newydd".





650 o Fynyddoedd o'r *Drapers' Company*

Mae'r *Drapers' Company* yn un o gwmpasau llyfrau hynaf y wlad, gan ddyddio'n ôl i'r 12fed ganrif. Er iddo roi'r gorau i fasnachu dillad yn ystod yr 17eg ganrif, daeth yn bwysig o'r newydd, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau dyngarol, a hynny'n parhau hyd heddiw. Mae'r *Drapers' Company* yn cefnogi Prifysgol Bangor ers i'r Brifysgol gael ei sefydlu ym 1884, yn cynnwys cyfraniad o bwys ym 1911 tuag at adeiladu Llyfrgell ac Amgueddfa Prif Adeilad y Celfyddydau. Heddiw, mae'r *Drapers' Company* yn dyfarnu rhyw £40,000 yn flynyddol i Brifysgol Bangor, tuag at amryw o efrydiaethau PhD, projectau a chyllid ar gyfer achosion o galedi.

Gwahoddwyd Prifysgol Bangor i ddigwyddiad y 650 mlwyddiant yn *Drapers' Hall* yng Ngorffennaf. Aeth cynrychiolwyr o'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yr Athro Carol Tully (Dirprwy Is-Ganghellor – Myfyrwyr), ac Enillwyr Ysgoloriaethau'r *Drapers' Company* i'r digwyddiad hwn, i ddathlu ein cysylltiadau dros y blynyddoedd. Rhoddodd yr Athro Tully y sylw hwn ar y digwyddiad:

“Roedd yn anrhydedd i Fangor fod yn ran o'r digwyddiad pen blwydd hwn. Rydym mor ddiolchgar i'r *Drapers' Company* am ei ymrwymiad i gefnogi'r Brifysgol a hefyd ein myfyrwyr.”



Er Cof

YR ATHRO GARETH PIERCE WILLIAMS (MATHEMATEG, 1964)

Mae'r Brifysgol yn nodi gyda thristwch farwolaeth un o'i chyn-fyfyrwyr enwocaf, sef yr Athro Gareth Pierce Williams. Yn enedigol ym 1939 o Ochr y Penrhyn, ar bwys Llandudno, bu'n rhagori mewn mathemateg ers ei blentyndod a daeth i Fangor i astudio'r pwnc yn y 1950au. Enillodd Gareth ei radd gyntaf ac yna, ym 1964, o dan ei gyfaill a'i fentor, yr Athro Peter Rowland Davies, ei PhD. Ym 1978, enillodd radd Doethur mewn Gwyddoniaeth, a hynny ar sail y gwaith yr oedd wedi'i gyhoeddi hyd yna.

Ym 1964, priododd â Janet Harding, yr oedd wedi cyfarfod â hi tra oedd hi ar ei gwyliau ger ei gartref. Roedd Gareth yn seiclwyr brwd, ac un tro aeth 100 milltir ar ei feic i ymweld â Janet yn ei chartref yn Lloegr. Ar ôl priodi, croesasant yr lwerydd er mwyn i Gareth ymgyrryd â chymrodoriaeth ôl-ddoethurol yn Labordy Dynameg Hylifau Geoffisegol (GDFL) Llywodraeth UDA yn Washington D.C. Yna, cafodd Gareth gynnig swydd barhaol a symud gyda'r labordy i Princeton ym 1968.

Bu Gareth yn gweithio yn GDFL am 40 mlynedd a daeth yn arbenigwr blaenllaw o fri mewn modelu mathemategol ar systemau atmosfferig, gan gyflawni gwaith arloesol ar blaned Iau a jetlif y ddaear. Etholwyd ef hefyd yn Gymrawd y Gymdeithas Feteorolegol Americanaidd a bu'n gwasanaethu fel ymgyngorydd i'r Labordy Jet-yriant ar ei deithiau *Pioneer* a *Voyager*.

Ei deulu oedd ei gariad mwyaf, yn cynnwys ei wraig, ei ddau fab, Kieran a Kirk, eu gwragedd hwythau, Laura a Kristine, a'i wyrion David, Philip a Hagan. Ar ôl dod yn ddinesydd Americanaidd, parhaodd Gareth yn agos at ei iaith a'i wreiddiau yng Nghymru, gan drosglwyddo ei frawdfrwydd dros gerdded y brynau i'w feibion.

Bu farw'r Athro Gareth Pierce Williams yng Nghanolfan Feddygol Prifysgol Princeton ar 5 Tachwedd 2014.



YR ATHRO FERGUS LOWE (PHD SEICOLEG, 1975)

Gyda thristwch mawr, rydym yn nodi marwolaeth yr Athro Fergus Lowe; cyn-fyfyrwr, cyn Dirprwy Is-Ganghellor a cyn Pennaeth yr Ysgol Seicoleg.

Wedi ymuno â'r brifysgol yn 1973, bu'n Bennaeth yr Ysgol Seicoleg am rai degawdau. Un o'r ysgolion lleiaf yn y brifysgol oedd Seicoleg i ddechrau ond fe'i datblygodd i fod yn un o'r ysgolion mwyaf.

Roedd ei brif ddiddordebau ymchwil ym maes newid ymddygiad, a bu'n arwain project *Food Dudes*, a lwyddodd i hyrwyddo bwyta'n iach ymysg plant ac a gafodd ei fabwysiadu mewn nifer o wledydd o gwmpas y byd.

Bu'n Ddirprwy i'r Is-Ganghellor o 2004 hyd nes iddo ymdeol o'r swydd honno yn 2012 a chwaraeodd ran bwysig mewn sawl agwedd ar fywyd y brifysgol.

Bu farw'r Athro Lowe ar y 10 Rhagfyr 2014.



DR MEREDYDD EVANS (ATHRONIAETH, 1945)

Ganed Dr Meredydd Evans - neu Merêd fel yr oedd yn cael ei adnabod - yn Nhanygrisiau, Blaenau Ffestiniog. Ef oedd y ieuengaf o 11 o blant a aned i Charlotte a Richard Evans, a oedd yn chwarelwr. Gadawodd Merêd yr ysgol yn 14 i weithio yn y Co-op, ond yn fuan wedyn mynychodd Goleg Harlech cyn dod i Fangor, lle astudiodd Athroniaeth a graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf. Roedd Merêd yn un o sylfaenwyr S4C ac yn gyn-bennaeth Adloniant Ysgafn ar gyfer BBC Cymru. Yr oedd hefyd yn ganwr ac yn fardd ac yn ymgyrchydd penigamp dros yr iaith Gymraeg. Fe'i gwnaeth yn Gymrawd er Anrhydedd yn 1997, ac roedd yn cyfrannu at Gronfa Bangor. Bu farw Merêd ar 21 Chwefror eleni, gan adael ei wraig, Phyllis, a'i ferch, Eluned.

YR ATHRO JOHN ROWLANDS (CYMRAEG, 1959)

Roedd yr Athro John Rowlands yn un o nofelwyr a beirniad llynyddol amlycaf Cymru. Graddiodd o Ysgol y Gymraeg yn 1959 ar ôl astudio am ei radd gyntaf a'i radd meistr yno. Aeth ymlaen i astudio ymhellach yng Ngholeg Iesu, Rhydychen cyn darlithio yn Abertawe, Coleg y Drindod Caerfyrddin, Llanbedr ac Aberystwyth. Ar ôl iddo ymdeol yn 2003, dychwelodd at ei wreiddiau academiaidd ym Mangor, lle bu'n ddarlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol yn Ysgol y Gymraeg. Roedd John hefyd yn feirniad cyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn gryn arbenigwr ar fywyd a gwin. Bu farw yn ei gartref, Y Goedden Eirin, Dolydd, Gwynedd ac mae'n gadael ei wraig, Eluned, a thri o blant; Huw, Dyfed a Sioned.

Hoffai'r Brifysgol cydnabod yr holl alumni sydd wedi marw ers y cyhoeddiad diwethaf o'r Bangoriad.

Aduniadau a Digwyddiadau

PENWYTHNOS HEN FECHGYN 2014

Bu Penwythnos Hen Fechgyn 2014 yn llwyddiant ysgubol eleni. Gan ddathlu ei hanner canmlwyddiant, dychwelodd alumni hen dimau chwaraeon myfyrwyr Bangor i'r campws i gymdeithasu ac i gymryd rhan mewn gornestau yn erbyn myfyrwyr presennol Bangor. Dyma'r adroddiad a roddwyd gan y trefnwyr Soracha Cashman, Gaz Edwards a Tryfan Prosser:

“Os buoch erioed ym Mangor yn ystod penwythnos gŵyl Banc Calan Mai, prin y byddech wedi colli Penwythnos yr Hen Sêr (sef yr Hen Fechgyn neu'r Hen Ferched). Mae'n sefydliad o fewn Bangor. Bob blwyddyn, bydd llawer o alumni yn dychwelyd i gyfnewid newyddion â hen ffrindiau, sgwrsio dros beint a chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn timau o fyfyrwyr presennol.

Ym 2014, cawfwd hanner canmlwyddiant y digwyddiad blynyddol hwn, sef ein Jiwbilî Aur. Gyda phresenoldeb o fwy na 300 o alumni, bu'r dathliadau'n llwyddiant enfawr, ac aduniad ffurfiol yn Neuadd Hugh Owen yn uchafbwynt i'r digwyddiad.

Yn union fel cynt, cyrhaeddodd y gwsteion mewn amrywiaeth o wisgoedd, o aelodau'r tîm Rygbi Merched a dynnodd sylw yng ngwisg ffansi draddodiadol Sefydliad y Merched, yr Hen Genhedlaeth Hoci mewn gwisg Lychlynnaidd denau iawn, arddull hamddenol-drwsiadu llawn toriadau Rygbi'r Dynion, Hen Fechgyn Pêl-droed mewn siwtiau ac esgidiau uchel, hyd at geinder coeth 007 Hen Sêr Pêl-droed y Dynion.

Cawsom yr anrhydedd o glywed anerchiad agoriadol gwych gan Ganghellor y Brifysgol, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, sydd ei hun yn alumnus o Fangor a astudiodd yma tua dechrau'r '60au. Yna, cawsom anerchiad arbennig o dda a doniol iawn gan un o'r Hen Sêr gwreiddiol. Roedd Lynn James yn fyfyrwr bywiog a chwaraeai bêl-droed yn ôl yn '64, pryd y cynhaliwyd aduniad swyddogol cyntaf yr Hen Sêr. Bu ei frwdfrydedd dros yr Hen Sêr, ei hanesion am "yr hyn sy'n mynd ar daith..." am gastiau'r timau pan oedd ef yn y Brifysgol a'r cysylltiadau sydd ganddo o hyd â'i gyd-chwaraewyr o'r gorffennol yn ein hatgoffa ni i gyd am yr hyn yr ydym yn rhan ohono heddiw; am ba mor arbennig yw Penwythnos yr Hen Sêr.

Llofnododd Lynn a'r Arglwydd Elis-Thomas ddatganiad ffurfiol rhwng y grŵp Alumni a'r Brifysgol fel ymrwymiad cyfredol gan y dda i barhau i gefnogi'r aduniad fel endid ac i barhau i ddatblygu'r rhwydwaith o gefnogaeth i alumni a geir gan y grŵp hwn.

Fel yr aeth y noson rhagddi, daeth ysbryd chwareus y grŵp i'r amlwg trwy gyfres o wobrau 'difyr', yn cynnwys gwobr am yr ymddangosiadau mwyaf (bu'r enillydd yn bresennol mewn 34 o aduniadau hen sêr), am y daith hwyaf i aduniad Hen Sêr (o Sydney – bob blwyddyn!), hyd at y gwobrau mwy bisâr, difyrus a newydd.

Hoffai'r Hen Sêr ddiolch i'r landlordiaid lleol, Canolfan Brailsford, y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, a rhoddwyr a fu'n helpu i gefnogi'r digwyddiad; a mwy fyth o ddiolch i bawb am ddot a gwneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant!

Mae'r Hen Sêr yn un o'r grwpiau alumni mwyaf gweithgar a hynaf yn y Brifysgol, ac yn gyfle i grŵp amrywiol o genedlaethau a chwaraeon ddot at ei gilydd, mewn un lle, ar yr un pryd, ac at yr un diben, sef dathlu eu hamser ym Mangor! ”



ATHEN, GROEG TACH 2013

Ymgasglodd alumni Bangor sydd wedi'u lleoli yng Ngwlad Groeg mewn derbyniad a gynhaliwyd yn Athen yn Nhachwedd 2013. Cyfarfwyd mwy na 60 o alumni o bob oedran a maes gradd gan Sheila O'Neal, Cyfarwyddwr Datblygu Bangor, a buont yn rhannu diod, bwyd da ac atgofion cynnes am y blynyddoedd a gawsant yn y Brifysgol.



BAHRAIN 2014

Fis Medi diwethaf, roedd y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn hynod o falch o groesawu mwy na 120 o alumni i'w haduniad cyntaf yn Nheyrnas Bahrain. Daeth alumni ar draws y Gwllf i'r digwyddiad hwn, gan gyfarfod â'r Is-Ganghellor, yr Athro John Hughes, yn ogystal â Sheila O'Neal, Cyfarwyddwr Datblygu, a rhai o'r prif academyddion o'n Hysgol Busnes, yn cynnwys yr Athro Phil Molyneux a'r Athro John Thornton. Roedd y digwyddiad mewn partneriaeth a *Bahrain Institute of Banking and Finance* (BIBF).

Mae Ysgol Busnes Bangor yn falch o'i phartneriaeth â BIBF, fel bod Prifysgol Bangor yn cynnig rhaglen ddiploma sydd wedi'i dilysu, ac a ddysgir yn BIBF. Caiff myfyrwyr hefyd gyfle i gwblhau eu blwyddyn olaf o astudiaethau ym Mangor. Ers i'r bartneriaeth gychwyn yn 2004, mae 420 o alumni wedi graddio trwy'r rhaglen hon, a 300 ohonynt wedi dod i Fangor i gael eu gradd lawn.

Dilynodd yr aduniad o alumni ar ôl y seremoni raddio arbennig a gyd-gynhaliwyd gan BIBF a Phrifysgol Bangor. Yn y seremoni raddio hon, bu 40 o raddedigion a oedd wedi cwblhau eu cyrsiau gradd yn Ysgol Busnes Bangor mewn partneriaeth â BIBF yn dathlu eu graddau yn eu gwlad frodorol.

"Mae Ysgol Busnes Bangor a BIBF yn bartneriaid ers bron i ddegawd, a mwy na 400 o fyfyrwyr o Bahrain, sy'n perfformio i safon uchel, wedi graddio o'r Brifysgol yn ystod yr amser hwnnw," meddai'r Athro Phil Molyneux, Deon y Coleg Busnes, Cyfraith, Addysg a Gwyddorau Cymdeithas ym Mhrifysgol Bangor. "Pleser oedd mynd i'r digwyddiad Alumni yn Bahrain, ac roedd yn wirioneddol dda gweld ffrindiau o Fangor a oedd wedi astudio popeth, o Gyfrifeg a Chyllid, Bancio a Chyllid, hyd at Fywydeg Môr ac Eigioneg. Roedd pawb y bwm yn siarad â hwy yn dweud mor wych fu eu hamser ym Mangor ac yn mynegi'r dymuniad o droi'r cloc yn ôl fel y gallant ymweld eto."

Roedd yr alumni a oedd yn bresennol yn y digwyddiad yn gobeithio y byddai'r digwyddiad hwn yn gymorth i lansio cymdeithas alumni yn Bahrain.



Cofiwch ddiweddarau eich manylion cyswllt er mwyn i ni allu gwahodd chi i aduniadau a digwyddiadau.

PROFFIL ALUMNI

Kevin Deeming

(Eigioneeg Ffisegol, 1969)



“ Mae gen i gyffesiad i'w wneud: Dwi mewn cariad â Chymru. Fe ddechreuodd y cyfan pan oeddwn yn astudio am radd mewn Ffiseg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yna fe wnes i ddwysau'r problem drwy syrthio mewn cariad dros fy mhen a'm clustiau efo merch o Ogledd Cymru, Jennifer Vaughan o Abergele, a oedd yn astudio Amaethyddiaeth yn Aber. Wedi tair blynedd yn darlithio mewn mathemateg a ffiseg yn Zambia, fe wnaeth Cymru fy nenu yn ôl drachefn i wneud gradd Meistr mewn Eigioneeg Ffisegol yn 1968 yn y Labordai Gwyddor Môr ym Mangor (yr Ysgol Gwyddorau Eigion bellach). A thros y blynyddoedd mae'r berthynas gariadus yma wedi parhau drwy ein hymweliadau niferus â Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Fy Athro oedd Jack Darbyshire - eigioneydd gwych a Chymro. Roedd John Simpson ifanc, a ddaeth yn ddiweddarach yn Athro Eigioneeg a Phenfaeth yr Ysgol, wedi bod yno am ychydig dros flwyddyn. Dyddiau cyffrous oedd rheini. Roedd yr adran yn dechrau cael ei thraed dani yn sgil adran biogol môr a oedd yn cynyddu dan arweiniad yr enwog Athro Denis Crisp FRS. Roedd yr holl staff ac ôl-raddedigion

yn cael eu hamser paned gyda'i gilydd a chymdeithasu gyda'i gilydd. Roedd bioglegwyr, eigionegwyr a geowyddonwyr yn cymysgu â'i gilydd ac, yn fy nhy i, fe fanteisiodd gwyddoniaeth yn enfawr drwy'r trafod syniadau yma a'r cysylltiadau rhyngddisgyblaethol.

Fy nhraethawd hir MSc oedd astudiaeth o ddosbarthiadau tywod ar draws Traeth Gwyllt, sef banc tywod ym mhen gortllewinol y Fenai. Gan weithio gyda chydweithiwr o'r Llynges, Dave Newing, fe wnaethom logi cwch bach i wneud y gwaith. Ar ôl gorffen gwaith maes y dydd arferem ddod i'r lan wrth dafarn y *Mermaid* (nad yw'n agored bellach, gwaetha'r modd) i drafod y canlyniadau! Dyddiau da oedd rheini.

Ar ôl gorffen fy ngradd Meistr gwneuthum ddwy flynedd o ymchwil yn Jamaica. Ond roedd seiren Cymru'n fy nhynnu'n ôl i Fangor ac yno y deuthum i ffurfio *Marine Investigations and Services Ltd* gyda chydweithiwr, Tony Heathershaw. Roedd y cwmni wedi'i leoli yn Stryd Fawr Bangor a bu llawer o fyfyrwyr o'r labordai yn gwneud gwaith llawn neu ran-amser iddo. Roedd y diwydiannau môr a oedd yn

dechrau blaguro bryd hynny eisiau gwybodaeth ar y tonnau, gwyntoedd, llanw, ceryntau, amodau gwely'r môr, ac yn y blaen, er mwyn ecsploetio'n llwyddiannus yr hydrocarbonau, y mwynau a'r bwyd sydd i'w cael yn ein moroedd a'n cefnforoedd. Roedd bri ar eigioneeg ffisegol a geowyddoniaeth.

Parhaodd y galw i gynyddu ac, yn y diwedd, cefais fy hun yn gweithredu ar lwyfan llawer ehangach, gan symud o Gymru i dde Lloegr. Yn gyntaf, bûm yn Uwch Reolwr i gwmni rhyngwladol mawr a oedd yn gwneud arolygon môr ac yna, yn 1983, ffurfiais fy nghwmni fy hun drachefn, *Metoc plc*. Gan reoli projectau a chynghori ym maes gwyddoniaeth a pheirianneg môr ledled y byd, buom yn gweithredu mewn meysydd fel olew a nwy, ynni adnewyddadwy ar y môr, diwydiannau arfordirol a gosod ceblau pŵer dan y môr. Pan wnes i ymddeol yn 2010 roedd gan *Metoc* erbyn hynny bron i 100 o staff llawn a rhan-amser a swyddfeydd yn Hampshire, Caerdydd a Dundee.

Mae ein moroedd a'n cefnforoedd yn rhan sylweddol o wyneb y Ddaear ac mae llawer iawn i'w ddarganfod amdanynt eto. Ni

fu ganddynt erioed gymaint o botensial i fodloni ein hanghenion o ran bwyd, ynni ac emosiwn hefyd. Ni fu erioed gyfnod chwaith lle buont dan gymaint o straen a phwysau. I ddynion a merched ifanc heddiw, gall y gwyddorau môr roi gyrfa hynod werthfawr a llawn boddhad iddynt.

I gefnogi pobl ifanc i gyflawni hyn, rwyf wedi helpu i greu pedair ysgoloriaeth MSc i'r Ysgol Gwyddorau Eigion dros y pum mlynedd nesaf. Bob blwyddyn, fe fydd un i eigioneeg ffisegol, un i geowyddoniaeth môr a dwy i fioleg môr. Fe'u gelwir yn Ysgoloriaethau Nautilus a byddant yn agored i unrhyw fyfyrwr graddedig ym Mhrydain neu dramor.

Fe wnaeth Prifysgol Bangor roi sylfaen ragorol i mi mewn eigioneeg a rhai o flynyddoedd gorau fy mywyd. Arweiniodd y profiad hwn fi i fyddu oedd yn ysgogol, yn gyffrous ac yn wirioneddol ymestyn rhywun yn ddeallusol. Mae wedi bod yn galed ar brydiau ond rwyf wedi bod yn lwcus. Rwy'n teimlo mai nawr yd'i'r amser i mi fuddsoddi peth o fy lwc dda i ar gyfer y rhai a ddaw i'r maes yn y dyfodol.”

Aduniad SOSA Mehefin 27-28

Mae Cymdeithas Alumni yr Ysgol Gwyddorau Eigion (SOSA) yn bwriadu cynnal aduniad mawreddog i ddathlu agor Canolfan Fôr Cymru (MCW) – ychwanegiad o'r radd flaenaf i'r Ysgol Gwyddorau Eigion ar hen safle Westbury Mount ym Mhorthaethwy. Mae'r aduniad wedi'i drefnu ar gyfer y penwythnos **27 a 28 Mehefin 2015**. Dewch draw i gymdeithasu gyda hen ffrindiau a staff a chwrrd â gwyddonwyr môr newydd.

Mae digwyddiadau'n cynnwys derbyniad diodydd, swper a thwmpath dawns yn Neuadd Reich; teithiau o gwmpas y Ganolfan Fôr newydd a sgysrsiau yno, a theithiau (os bydd y tywydd yn caniatáu) o gwmpas llong ymchwil y Prince Madog, a llawer mwy. I'r rhai sydd â diddordeb, rydym ni wedi trefnu llety yn y brifysgol. Os hoffwch chi fwy o wybodaeth neu archebu tocynnau ar-lein ewch i <https://shop.bangor.ac.uk> neu e-bostiwrch Gadeirydd Cymdeithas Alumni yr Ysgol Gwyddorau Eigion (SOSA) Mick Cook, mick@mickcook.com neu ffoniwch +44 7593 233633.



PROFFIL ALUMNI

Dr. Ross Piper

(Sŵoleg gydag Ecoleg Anifeiliaid, 1998)

Mae'r alumnus o Fangor Dr Ross Piper yn sŵolegydd, yn awdur ac yn gyflwynydd a raddiodd mewn Sŵoleg gydag Ecoleg Anifeiliaid ym 1998. Ar ddechrau 2013, bu'n rhan o daith a drefnwyd gan y BBC i ddogfennu bywyd gwyllt Byrma. Caniatwyd i'r tîm o wneuthurwyr ffilmiau bywyd gwyllt fentro i ddyfnderoedd jynglau Byrma i gofnodi bywyd gwyllt y wlad honno, sydd wedi'i hynysu ers cymaint o amser, a thafu peth goleuni ar gyflwr ei choedwigoedd. Arweiniodd hyn at y gyfres dair-rhan, *Wild Burma: Nature's Lost Kingdom*, a ddarlledwyd ar BBC2 y llynedd.

Ar ôl Bangor, cafodd Ross PhD yn Leeds, symud i Lundain a dechrau ysgrifennu llyfrau, y cyhoeddwyd y cyntaf ohonynt yn 2007. Mae ei lyfr diweddaraf, *Animal Earth: The Amazing Diversity of Living Creatures*, yn edrych ar yr amrywiaeth a geir ym myd yr anifeiliaid.

Ynglŷn â Bangor, medd Ross, "Wyddwn i ddim beth i'w ddisgwyl ym Mangor cyn cychwyn ar fy ngradd Sŵoleg. Es i ddim i unrhyw ddiwrnod agored; mewn gwirionedd, ni fŷm erioed o'r blaen yn y rhan honno o Gymru.

Roedd un neu ddau o bobl wedi dweud ei bod yn brifysgol dda. Roeddwn yn ifanc, yn naif, a chredais yr hyn a ddywedon nhw – penderfyniad a allai fod wedi mynd o chwith. Rydym yn falch na wnaeth! Mwynheais y cwrs fwyfwy wrth i'r tair blynedd wibio heibio, diolch i'r pwyslais cymharol drwm ar y pynciau a oedd yn tynnu fy mryd o ddifri', y cyfle i fyw'n fwy annibynnol, ôl-raddedigion cyfeillgar a rhai darlithwyr gwych, yn benodol Simon Webster, Mike Lehane a Nigel Brown. Cafwyd llawer o deithiau maes, cyswllt uniongyrchol ag anifeiliaid, a chyfleoedd i grwydro'r ardal. Un rhan o'r cwrs a grisialodd fy niddordebau'n wirioneddol a'm llywio ar fy llwybr presennol oedd project tacsonomeg a gynhaliwyd ym mlwyddyn tri, ac y bŷm yn dwlu arno.

Ar ôl dweud hynny, mae arnaf ychydig o gywilydd cyfaddef na fanteisiais i'r eithaf ar leoliad Bangor. Dim ond yn gymharol ddiweddar rwy wedi dechrau gwerthfawrogi'r amrywiaeth o gynefinoedd diddorol sydd o fewn cyrraedd hwylus i Fangor, a'r holl weithgareddau awyr agored sydd ar gael gerllaw. Pe bawn yn mynd i brifysgol yn awr,

byddai'r lleoliad – rhwng môr a mynydd – yn atyniad mawr."

Eleni, mae Ross wedi dychwelyd i'r Brifysgol ar nifer o achlysuron er mwyn cefnogi myfyrwyr presennol. Ym Mawrth 2014, draddododd ddarlith gyhoeddus fel rhan o gyfres ddarlithoedd Cymdeithas Sŵoleg Prifysgol Bangor a ddenodd gynulleidfa o blith myfyrwyr, alumni a'r gymuned leol.

Cymerodd ran hefyd mewn sesiwn Caffi Gyrfaedd mewn Gwyddoniaeth, lle daeth alumni pynciau o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol yn ôl i drafod eu gyrfaedd ers Bangor, i roi cyngor ac i rannu eu profiad a'u gwybodaeth â myfyrwyr presennol.

Medd Ross, "Yn ystod y cyfnod o bron i 20 mlynedd ers imi adael Bangor, rwy wedi cael rhai profiadau gwych ac, yn ddiweddar, bŷm yn ôl i'r Brifysgol i sôn am y rhain ac am fy ngyrfa'n gyffredinol. Rwy'n credu ei bod yn rhan bwysig o brofiad prifysgol, gan y gellwch roi syniadau buddiol i bobl sy'n rhannu eich diddordebau ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud a lle gallant fynd â'u gradd."

“Yn ystod y cyfnod o bron i 20 ers imi adael Bangor, rwy wedi cael rhai profiadau gwych ac, yn ddiweddar, bŷm yn ôl i'r Brifysgol i sôn am y rhain ac am fy ngyrfa'n gyffredinol.

”

Dr. Ross Piper





Lôn Cariadon

Yma ym Mangor, rydym yn clywed yn aml gan gyplau a gyfarfu tra oeddent yn fyfyrwyr ym Mangor, ac wrth ein bodd yn dweud wrthyhych amdanynt! Rydym yn hefyd yn cael hanesion eraill am gysylltiadau a grëwyd ym Mangor, a dyma rai ohonynt; rydym yn gobeithio y byddwch yn eu mwynhau o leiaf gymaint ag yr ydym ni. Os oes gennych unrhyw straeon yr hoffech eu rhannu, anfonwch e-bost i: alumni@bangor.ac.uk

John Wilkinson (Saesneg a Hanes, 1962)

"Cyfarfu Glenys a minnau gyntaf yn Nhachwedd 1959 mewn dawns yn Neuadd PJ. Roedd Glenys yn fyfyrwraig yng Ngholeg y Santes Fair (Hyfforddi Athrawon) a minnau yn y Brifysgol. Graddiais gyda BA mewn Saesneg a Hanes a mynd ymlaen i gael MEd yn Lerpwl i ddod yn Bennaeth Ysgol Gynradd ac yn Arolygwr Ysgolion cyn ymddeol. Ar ôl gyrfa fel athrawes, ordeiniwyd Glenys yn weinidog yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym 1998.

Priodasom yn Awst 1964 ac mae gennym ddau o blant a phedwar o wŷrion. Mae ein merch Helen yn feddyg a'n mab Mark yn rheolwr yng Ngwasanaeth Gyrfaoedd Swydd Lincoln, ac yntau hefyd wedi astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Ers inni ymddeol, mae Glenys a minnau wedi cadw'n brysur. Mae Glenys yn siarad Cymraeg ac, y flwyddyn nesaf, bydd yn Llywydd ar Gymdeithas Cymry Penbedw. Roedd ei thad yn wreiddiol o Fangor, a'i mam o Amlwch, Ynys Môn. Rwy'n aelod o Glwb Dŵr Agored Lerpwl ac yn nofio dros wahanol elusennau.

I nodi ein Priodas Aur eleni, dychwelodd Glenys a minnau i Ogledd Cymru a wnes i gymryd rhan mewn sesiwn nofio mewn dŵr agored rhwng y ddwy bont ar Lannau'r Fenai gyda'r cwmni lleol *Surf-Lines*. Cynhelir *Surf-Lines* gan alumnus arall o Fangor, Phil Nelson (1994, Chwaraeon, lechyd ac Addysg Gorfforol) ac mae'r cwmni bellach mewn partneriaeth swyddogol â'r Brifysgol; roedd yn bleser gen i fod y cwmni wedi rhoi cyfle inni ddatlu ein pen blwydd trwy ddod yn ôl a nofio mewn lle sy'n dod ag atgofion mor bleserus yn ôl inni. Roedd Phil yn arweinydd campus, gan ein tywys yn ddeheuig trwy gerhyntau a oedd yn newid. Roedd yn brofiad gwych ac yn lleoliad arbennig iawn i ni."



Beverley Howe née Aston (Hyfforddi Athrawon, 1975)

"Yn 1972, cychwynnodd Helen Thomas a minnau ar gwrs hyfforddi athrawon 3-blynedd yng Ngholeg y Santes Fair. Buom ni'n dau'n astudio Hanes a Chelf. Gan ein bod yn byw o fewn 25 milltir i'n gilydd yn y De, roeddem weithiau'n rhannu lifftiau adref. Collasom gysylltiad ar ôl ymgymhwyso, ond roedd ein bywydau fel pe baent yn mynd yn gyfochrog. Cawsom ni'n dwy yrfaodd hir a llwyddiannus fel athrawesau, cawsom hefyd ddau o blant yr un, Helen â dwy ferch a minnau â mab a merch. Priodasom ni'n dwy a'r cariadon y buom yn eu canlyn tra oeddem ym Mangor, gan dreulio llawer o flynyddoedd yn byw dramor cyn dychwelyd i'r DU – Helen yn Botswana a minnau yng Nghnada.

Fwy na 30 mlynedd ers inni weld ein gilydd ddiwethaf, mae fy mab yn un o 40,000 o swyddogion yr Heddlu Metropolitan; ar gwrs gyrru ar hap, cyfarfu â swyddog arall, yna dechrau canlyn ac, ymhen blwyddyn, penderfynasant brynu tŷ gyda'i gilydd. Ar ein hymweliad cyntaf â'u cartref newydd, cawsom wahoddiad i ginio yn nhŷ rhieni ei gariad; nid oeddem wedi cyfarfod o'r blaen. Dyma fi'n cerdded i mewn trwy'r drws, a dyna le roedd Helen!

Ym mhriodas ein plant, ddeunaw mis yn ôl, cynhwysodd gwŷr Helen yr hanes hwn yn ei anerchiad fel tad y briodferch."

